

Hysbysiad Preifatrwydd

Hysbysiad pwysig

Hwn yw hysbysiad preifatrwydd Tarian (Yswiriant) Cyf, rhif cofrestru: **03720798** ac mae eu swyddfa gofrestredig yn 14 Stryd y Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AG, a gyfeirir ato fel **ni** neu **ein** yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn.

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn amlinellu sut yr ydym yn casglu ac yn prosesu eich data personol. Yn ogystal, mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn darparu rhywfaint o wybodaeth sydd ei hangen yn gyfreithlon ac mae'n rhestru eich hawliau mewn perthynas â'ch data personol.

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn ymwneud â gwybodaeth bersonol sy'n eich adnabod chi fel unigolyn naturiol (p'un ai ydych chi'n gwsmer go iawn neu'n gwsmer posibl, unigolyn sy'n pori ar ein gwefan neu'n unigolyn y tu allan i'n sefydliad yr ydym yn rhyngweithio â chi). Cyfeiriwn at y wybodaeth hon drwy'r hysbysiad preifatrwydd hwn fel data personol neu wybodaeth bersonol ac amlinellir mwy o fanylion ynglŷn â beth y mae hyn yn ei gynnwys yn yr hysbysiad preifatrwydd a welir isod.

Mae preifatrwydd a diogelwch eich gwybodaeth bersonol yn bwysig iawn inni, ac felly, rydym ni'n dymuno rhoi sicrwydd i chi y bydd eich gwybodaeth yn cael ei rheoli a'i gwarchod gennym ni bob amser. Darllenwch yr hysbysiad preifatrwydd hwn gan ei fod yn egluro sut y gallwn ni gasglu a defnyddio eich data personol.

Gall yr hysbysiad preifatrwydd hwn amrywio o dro i dro, ac felly, dylech ei wirio yn rheolaidd. Cafodd yr hysbysiad preifatrwydd hwn ei ddiweddarau ddiwethaf ar 02/12/2020.

Sut i gysylltu â ni

Y rheolydd a'r manylion cyswllt

Ar gyfer dibenion y ddeddfwriaeth diogelu data perthnasol, ni yw **rheolydd** eich data personol. Fel rheolydd, rydym yn defnyddio'r (neu'n **prosesu**) data personol sydd gennym ni amdanoch chi yn unol â'r hysbysiad preifatrwydd hwn.

Os ydych chi angen cysylltu â ni mewn perthynas â defnyddio neu brosesu eich data personol, yna gallwch chi wneud hynny drwy ddefnyddio ein manylion cyswllt a welir isod.

Swyddog Diogelu Data

Gillian Parry-Jones yw ein Swyddog Diogelu Data a gallwch chi gysylltu â hi yn y cyfeiriad swyddfa uchod.

Pa wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi ac o le yr ydym yn cael y wybodaeth

Gall y data personol yr ydym yn ei gasglu amdanoch chi gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Data personol yr ydych chi'n ei ddarparu inni drwy alw, edrych ar ein gwefan neu ffonio
- Data personol yr ydych chi'n ei ddarparu wrth i chi holi ynglŷn ag yswiriant, neu pan ydych chi'n prynu polisi gennym ni, gan gynnwys gwybodaeth ynglŷn â beth yr ydych chi angen ei yswirio neu pwy yr ydych chi angen ei yswirio, fel manylion cerbydau, gweithgareddau busnes, eich manylion cartref neu fanylion teithio
- Gwybodaeth gyffredinol amdanoch chi, fel eich enw, eich cyfeiriad, eich manylion cyswllt a'ch dyddiad geni
- Data personol yr ydych chi'n ei ddarparu os ydych chi'n tanysgrifio i'n gwasanaethau postio neu'n cylchlythyr
- Hanes ynglŷn â'ch hawliadau a'ch credyd
- Manylion ariannol, fel eich cyfrif banc a manylion eich cerdyn
- Euogfarnau troseddol
- Gwybodaeth ynglŷn â'ch defnydd o'n gwefan fel eich cyfeiriad DRh, sy'n rif unigryw ac sy'n adnabod eich cyfrifiadur, yn cynnwys data personol a gasglwyd drwy ddefnyddio cwcis.

Yn ychwanegol, gallwn gael hyd i rai categorïau arbennig o'ch data (**categoriâu arbennig o ddata**) a data ynglŷn ag euogfarnau troseddol, ac mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn amlinellu yn benodol sut y gallwn ni brosesu'r mathau hyn o ddata personol. Mae'r categorïau arbennig o ddata yn ddata ynglŷn ag iechyd.

Rydym ni'n casglu eich data personol oddi wrthyhych fel rheolydd pan ydym yn cael dyfynbrisiau am yswiriant ar eich cyfer chi, pan yr ydym yn llunio eich polisi a phan yr ydym yn gwneud newidiadau i'ch polisi ar eich cyfer. Yn ogystal, gall hyn gynnwys casglu data gan eraill neu ynglŷn ag eraill sy'n gysylltiedig â chi a'ch polisi yswiriant, fel unigolion eraill sydd wedi cael eu hyswirio ar eich polisïau chi neu eich gweithwyr neu'ch cynrychiolwyr. Drwy

roi'r wybodaeth hon inni ynglŷn â rhywun arall ar gyfer y diben o drefnu yswiriant iddyn nhw o dan eich polisi chi fel gyrwyr a enwir, gweithiwr neu gydymdaith teithio ayyb, rydych chi'n cadarnhau eich bod wedi cael eu caniatâd i wneud hynny a'ch bod wedi rhannu'r hysbysiad preifatrwydd hwn gyda nhw.

Drwy ofyn inni drefnu contract yswiriant ar eich cyfer chi pan mae hyn yn cynnwys pasio gwybodaeth inni sy'n ymwneud â phlant, rydych chi'n cadarnhau wrthym ni wrth wneud hynny, mai chi yw gwarcheidwad cyfrifol y plentyn.

Yn ogystal, rydym yn casglu gwybodaeth o ffynonellau cyhoeddus sydd ar gael ac o gronfeydd data trydydd parti sydd ar gael i'r diwydiant yswiriant ar gyfer dibenion lleihau twyll a throsedd ariannol yn ogystal ag unrhyw gronfeydd data trydydd parti lle gall eich data personol fod yno, cyn belled bod gan drydydd partion o'r fath seiliau cyfreithlon i rannu data personol o'r fath gyda ni.

Sut yr ydym yn defnyddio eich data personol a'r sail gyfreithlon dros wneud hynny

Lle'r ydym yn dibynnu ar sail yn hytrach na chaniatâd

Gallwn ddibynnu ar un neu fwy o'r seiliau cyfreithlon canlynol wrth brosesu eich data personol ar gyfer y dibenion canlynol:

Y dibenion ar gyfer yr hyn yr ydym yn prosesu eich data personol	Y sail ar yr hyn yr ydym yn gallu gwneud hyn (dyma beth a ganiateir o dan y gyfraith)
Er mwyn perfformio ein rhwymedigaethau cytundebol i chi. Byddai hyn yn cynnwys cyflawni eich ceisiadau ar gyfer gwasanaethau yswiriant (yn cynnwys cael yswiriant i chi, cyflawni ceisiadau ar gyfer addasiadau tymor canolig a chael adnewyddu yswiriant)	Mae'r prosesu yn angenrheidiol mewn perthynas ag unrhyw contract y gallwch chi ei wneud gyda ni
Er mwyn gweinyddu eich cyfrif, yn cynnwys trafodion ariannol ar gyfer broceru yswiriant	Mae'r prosesu yn angenrheidiol mewn perthynas ag unrhyw contract y gallwch chi ei wneud gyda ni.
Cynorthwyo wrth atal a lleihau twyll a throsedd ariannol arall	Mae'r prosesu yn angenrheidiol er mwyn inni gydymffurfio â'r gyfraith a'n gofynion cyfreithiol
Er budd diogelwch ac er mwyn gwella ein gwasanaeth, gall galwadau ffôn yr ydych chi'n eu gwneud inni gael eu monitro a/neu'u recordio	Mae'r prosesu yn angenrheidiol i ddilyn ein diddordeb cyfreithlon wrth reoli a gweithredu ein busnes
Er mwyn rhoi gwybod i chi ynglŷn â nwyddau a gwasanaethau tebyg a all fod o ddiddordeb i chi.	Mae'r broses yn angenrheidiol i ddilyn ein diddordeb cyfreithlon wrth weithredu ein busnes.
Gwneud penderfyniadau awtomataidd, proffilio awtomataidd a chanfod twyll	Mae angen y prosesu mewn cysylltiad â rhai cytunbedbau y gallwch ymrwymo iddynt gyda ni

Categoriâu arbennig o ddata ac euogfarnau troseddol

Yn ogystal, gallwn fod angen gasglu categorïau arbennig o ddata oddi wrthych, fel gwybodaeth ynglŷn ag iechyd, er mwyn cyflawni ein rhwymedigaethau cytundebol i chi. Y sail gyfreithlon y gallwn ni wneud hyn yw bod y prosesu yn angenrheidiol oherwydd rhesymau o fudd cyhoeddus sylweddol yn ymwneud ag yswiriant. Yn ogystal, gallwn gasglu gwybodaeth ynglŷn ag euogfarnau troseddol y gallwn ni rannu gyda thrydydd partion. Y sail gyfreithlon y gallwn ni wneud hyn yw bod y prosesu yn angenrheidiol oherwydd rhesymau o fudd cyhoeddus sylweddol yn ymwneud ag yswiriant.

I bwy yr ydym yn pasio eich data personol?

Gallwn fod angen pasio eich data personol i gwmnïau eraill a all gynnwys:

- Cwmnïau neu frandiau eraill o fewn ein grŵp o gwmnïau, er enghraifft, os ydym yn methu â darparu polisi yswiriant addas ar gais neu wrth adnewyddu yswiriant, byddwn yn gwirio os gall unrhyw un o'n cwmnïau grŵp cysylltiedig ddarparu yswiriant ar eich cyfer chi
- Yr yswirwyr, y cyfryngwyr a'r darparwyr gwasanaeth trydydd parti yr ydym ni yn eu defnyddio ar gyfer y diben o drefnu a gweinyddu eich polisi yswiriant. Gall hyn yn ogystal gynnwys aseswyr rheoli risg, asiantaethau adennill colledion heb eu hyswirio, darparwyr cyllid premiwm a thrydydd partion eraill sydd ynghlwm (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) â gweinyddu eich yswiriant a'i fuddion cysylltiedig
- Cwmnïau sy'n darparu gwasanaethau gweinyddu a phrosesu inni, neu ar ein rhan, o dan contract er mwyn cwblhau gweithgareddau fel trin hawliadau, system TG a gwasanaethau gweinyddol a gweithgareddau eraill a amlinellwyd yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn, yn ogystal â gweithgareddau cefnogi, fel gwasanaethau cyllid ac archwilio
- Sefydliadau sydd â swyddogaeth benodol a osodwyd mewn cyfraith, fel cyrff statudol, awdurdodau rheoleiddio a chyrrff awdurdodedig eraill
- Sefydliadau eraill lle mae gennym ni ddyletswydd neu'n cael caniatâd i ddatgelu eich gwybodaeth bersonol drwy'r gyfraith, er enghraifft, os y gwnaethom ni dderbyn cais dilys gan yr heddlu neu sefydliad trydydd parti arall er budd atal a darganfod trosedd
- Asiantaethau atal twyll a gweithredwyr cofrestrau sydd ar gael i'r diwydiant yswiriant er mwyn gwirio gwybodaeth ac atal twyll
- Asiantaethau gwirio credyd er mwyn gwirio eich hanes credyd. Bydd y gwiriad hwn yn cael ei gofnodi ar eich ffeil gwirio credyd heb effeithio ar eich gallu i wneud cais am gredyd neu nwyddau ariannol eraill

- Y trydydd partion yr ydym yn eu ddefnyddio i adennill arian a all fod ddyledus inni gennych chi neu i'r sawl yr ydym yn gwerthu eich dyled iddyn nhw
- Cwmni arall, os yw ein busnes, neu ran ohono, yn cael ei brynu neu'n cael ei gymryd drosodd gan y cwmni hwnnw i sicrhau bod eich polisi yswiriant yn gallu parhau i gael ei wasanaethu neu fel rhan o drafodaethau rhagarweiniol gyda'r cwmni hwnnw ynglŷn â gwerthiant neu drosfeddiannu posibl.

Gall y wybodaeth yr ydych chi'n ei rhannu gyda ni gael ei throsglwyddo gennym ni neu unrhyw fathau o gwmnïau neu sefydliadau yr ydym wedi'u nodi uchod, i wledydd eraill er mwyn ei phrosesu, yn cynnwys lleoliadau y tu allan i'r DU a'r Undeb Ewropeaidd. Ni fyddwn yn gwneud hyn oni bai fod lefelau diogelu digonol yn bodoli, fel sydd yn ofynnol gan gyfreithiau diogelu data perthnasol.

Cael mynediad at ein gwefan a'n cwcis

Pan ydych chi'n ymweld ag un o'n gwefannau gallwn gasglu gwybodaeth amdanoch, fel eich cyfeiriad e-bost, eich cyfeiriad DRh ac adnabyddwyr ar-lein eraill. Mae hyn ein helpu ni i dracio ymweliadau unigol a monitro patrymau o drafnidiaeth ar ein gwefan gan gwsmeriaid, fel pwysu sy'n ymweld â pham maen nhw yn ymweld. Rydym yn defnyddio trydydd partion i gasglu cyfeiriadau DRh er mwyn ein helpu ni i ddeall ein data trafnidiaeth Rhyngwryd a'r data ynglŷn â sut borwr a chyfrifiadur sydd gennych chi. Yn ogystal, gallwn ddefnyddio gwybodaeth o ddefnydd y we i greu data ystadegol ynglŷn â defnydd ein gwefan. Yna, gallwn ddefnyddio neu ddatgelu'r data ystadegol hwnnw i eraill ar gyfer dibenion marchnata a datblygu strategol, ond ni fydd unrhyw unigolion yn cael eu hadnabod mewn data ystadegol o'r fath.

Gallwn ddefnyddio cwcis a/neu dagiau picseol ar rai tudalennau o'n gwefan. Ffeil destun fechan yw cwci sy'n cael ei hanfon i'ch cyfrifiadur. Tag anwladwyd yw tag picseol sy'n cael ei roi ar rai tudalennau o'n gwefan, ond nid ar eich cyfrifiadur chi. Fel arfer, mae tagiau picseol a chwcis yn gweithio gyda'i gilydd i'n helpu ni i roi gwasanaeth sydd wedi cael ei deilwra yn well. Rydym yn ogystal yn defnyddio cwcis a thagiau picseol yn ein cyfathrebiadau e-bost er mwyn personol i'r e-bost a thracio a yw'r e-bost wedi cael ei agor ac a yw'r derbynnydd wedi defnyddio dolenni gwefan a oedd yn y cyfathrebiad e-bost. Mae hyn ein galluogi ni i fonitro a gwella ein cyfathrebiadau e-bost a'n gwefan. Gellir dod o hyd i wybodaeth ddefnyddiol ynglŷn â chwcis, yn cynnwys sut i'w dileu, yn <http://allaboutcookies.org>.

Mae porwyr rhyngwryd fel arfer yn derbyn cwcis yn ddiodyn, er ei bod yn bosibl gosod porwr i wrthod cwcis. Fodd bynnag, gallai gwrthod derbyn cwcis gyfyngu ar eich defnydd o'n gwefan a / neu oedi neu effeithio ar y ffordd y mae ein gwefan yn gweithredu. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am gwcis pan ymwelwch â'n gwefan.

Mae natur agored y rhyngwryd yn y fath fodd y gall data lifo dros rwydweithiau heb fesurau diogelwch, a gall pobl gael mynediad ato a'i ddefnyddio gan y rhai hynny ar wahân i'r sawl y mae'r data wedi cael ei fwriadu. Tra bod hyn y tu hwnt i'n rheolaeth ni, rydym yn ystyried diogelu eich gwybodaeth yn ddifrifol iawn ac rydym yn anelu at gadw lefelau diogelwch priodol bob amser.

Eich hawliau chi

Byddwn yn storio eich data gyhyd ag sydd ei angen yn unig, er mwyn cydymffurfio ag anghenion eich contract/contractau yswiriant ac unrhyw rwymedigaeth gyfreithlon neu amodau prosesu cyfreithlon a all fodoli o ganlyniad. Mae gennych chi nifer o hawliau ynghylch y wybodaeth bersonol yr ydym yn ei defnyddio, ac y gallwch chi ofyn i ni dalu sylw iddyn nhw. Mewn rhai achosion hyd yn oed pan ydych chi'n gwneud cais ynghylch eich gwybodaeth bersonol, ni allwn fod angen, na gallu cyflawni'r cais, oherwydd gallai hyn ein harwain ni at fethu â chyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoleiddiol o dan yr amodau prosesu cyfreithiol yr ydym y dal eich data neu oherwydd bod isafswm cyfnod statudol o amser yr ydym ni'n gorfod cadw'r wybodaeth. Os mai hyn yw'r achos, byddwn ni'n rhoi gwybod i chi beth yw ein rhesymau.

Gallwch chi ofyn inni:

- Ddarparu copi o'ch gwybodaeth bersonol
- Cywiro neu ddileu gwybodaeth ddiangen neu anghywir
- Cyfyngu'r defnydd o'ch gwybodaeth bersonol neu wrthwynebu iddo ar unrhyw amser
- Gwrthwynebu i unrhyw benderfyniad awtomataidd, yn cynnwys proffilio a ellir fod wedi cael ei ddefnyddio gan yswirwyr wrth danysgrifennu eich dyfynbris.
- Darparu eich data personol mewn fformat strwythuredig, a ddefnyddir yn gyffredin a fformat sy'n ddarllenadwy mewn peiriant a chael trosglwyddo eich data personol i reoleiddiwr arall. Mae'r hawl hon yn berthnasol yn unig lle mae ein prosesu o'ch data personol chi yn awtomataidd a bod y prosesu wedi digwydd yn y lle cyntaf gyda'ch caniatâd chi neu ar gyfer cyflawni contract gyda chi.
- Pan rydym ni'n dibynnu ar eich caniatâd chi i ddefnyddio eich data personol, gallwch chi dynnu'r caniatâd hwnnw yn ôl ar unrhyw adeg. Pan mae eich caniatâd yn cael ei dynnu'n ôl, bydd eich caniatâd blaenorol yn parhau yn ddilys mewn perthynas â'n defnydd ni o'ch gwybodaeth cyn y dyddiad y gwnaethoch chi ei dynnu'n ôl, neu os anfonwyd unrhyw ddeunydd marchnata atoch chi, yn dweud wrthym nad ydych chi eisïau inni gysylltu â chi eto.

Os bydd gennych chi unrhyw gwestiynau neu bryderon ynglŷn â'r hysbysiad preifatrwydd hwn neu ynglŷn â'ch hawliau diogelu data, cysylltwch â ni drwy ddefnyddio ein manylion a amlinellwyd ar ddechrau'r hysbysiad preifatrwydd hwn os gwelwch yn dda.

Yn ogystal, mae gennych chi'r hawl i wneud ymholiad neu i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG) os ydych chi'n anhapus gyda'n defnydd ni o'ch data, neu os ydych chi'n meddwl ein bod wedi torri gofyniad cyfreithiol. Mae manylion pellach ynglŷn â SCG ar gael yn: www.ico.org.uk.

Sut rydym ni'n cysylltu â chi ynglŷn â nwyddau a gwasanaethau eraill

O dro i dro, gallwn ni brosesu eich data personol er mwyn rhoi gwybod i chi ynglŷn â nwyddau a gwasanaethau eraill a all fod o ddiddordeb i chi. Mae hyn oherwydd ein bod yn gwerthfawrogi eich busnes a'n bod yn ymfalchïo mewn cynnig cyngor proffesiynol wedi'i deilwra sy'n cwrdd â'ch anghenion yswiriant penodol. Mae hyn yn cynnwys eich hysbysu chi ynglŷn â'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r yswiriant a'r diwydiant ac yn manylu ar unrhyw gynigion neu ddeunydd marchnata yn ymwneud â'r gwasanaethau yswiriant yr ydym ni'n eu darparu ar eich cyfer chi. Mae ein sail gyfreithlon ar gyfer prosesu eich data personol yn y modd yma fel sy'n angenrheidiol i ddilyn diddordebau cyfreithlon ein busnes, os nad ydym fel arall wedi cael eich caniatâd i wneud hynny. Gallwn gysylltu â chi drwy'r post, dros y ffôn neu drwy e-bost. Byddwch chi'n derbyn y dewis i beidio â derbyn unrhyw ohebiaeth oddi wrthym ni ynglŷn â hyn ar unrhyw adeg. Fodd bynnag, nodwch os gwelwch yn dda na fydd hyn yn effeithio arnom ni i gysylltu â chi ynglŷn â gwasanaethu nwyddau yr ydych chi wedi gofyn yn benodol amdany'n nhw.